# Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-Dor i bobl gydag anableddau dysgu

Briff prosiect – Mehefin 2019

North Wales Together
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*



- Ar 14 Mehefin, lansiwyd Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaeth Di-Dor i bobl gydag anableddau dysgu yn Venue Cymru yn Llandudno.




- Daeth llawer o bobl i'r lansiad i wybod mwy am y prosiect a sut y gallan nhw gymryd rhan fel pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd, rhieni a gwarcheidwaid, sefydliadau trydydd sector a staff o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.



- Yn y bore, croesawyd pobl i'r lansiad gan Neil Ayling, Prif Swyddog, Cyngor Sir y Fflint, y Cynghorydd Chris Jones, aelod cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir y Fflint, ac Albert Heaney o Lywodraeth Cymru.



- Gwnaeth cwmni o’r enw TAPE fideo am y prosiect. Crëwyd y fideo gan Shane sy’n wirfoddolwr gyda TAPE.
- Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r fideo a'r prif gymeriad. Shane y Ci Defaid!



- Cawsom gyflwyniadau hefyd gan dimau’r gwasanaethau cymdeithasol o bob rhan o Ogledd Cymru a Betsi Cadwaladr. Gwnaethon nhw ddweud wrthym am y gwaith maen nhw’n ei wneud i gefnogi pobl gydag anableddau dysgu a’u teuluoedd i gael bywydau da.




- Amser cinio, diddanwyd y gwesteion gan y **Tyddyners**. Roedden nhw’n anhygoel ac roedd pawb wrth eu boddau gyda’u cerddoriaeth.



- Daeth nifer o sefydliadau i'r lansiad i ddangos i bobl y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud i gefnogi pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd, a'u gofalwyr. Roedd cyfle i bobl gerdded o gwmpas a siarad efo nhw.




- Gwnaeth Lois o Scarlett Designs gofnod gweledol o'r diwrnod. Diolch Lois!



- Hoffai'r tîm prosiect ddweud Diolch yn Fawr wrth bawb a ddaeth i wneud y Lansiad yn llwyddiant aruthrol.



- Beth sy'n digwydd nesaf gyda'r prosiect?



- Dros yr haf, byddwn yn siarad efo iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol a phobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.




- Byddwn yn gofyn i bawb beth sy'n gweithio'n dda yn eu barn nhw a sut y gallwn wella gwasanaethau fel y gall pobl gydag anableddau dysgu gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.



- Ar ddiwedd yr haf, byddwn yn rhannu'r hyn rydym wedi ei ddarganfod gyda phawb a phenderfynu gyda'i gilydd, sut byddwn ni'n gwella gwasanaethau.



- Byddwn hefyd yn cynnal mwy o ddigwyddiadau'r hydref hwn.




- Bydd un digwyddiad ar gyfer gwasanaethau plant, pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.



- Bydd un digwyddiad ar gyfer darparwyr cymorth, pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.



- Rydym eisiau i bawb fod yn rhan o'r prosiect. Os ydych chi eisiau helpu gwneud gwasanaethau'n well ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd, a gofalwyr, cysylltwch â'r tîm.



- Gallwch anfon e-bost i ni yn [Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk](mailto:Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk)



- Efallai y byddwch eisiau gofyn i’ch teulu, gofalwr neu ffrind i'ch helpu i anfon e-bost.



- Diolch am ddarllen ein newyddlen!